Annwyl Bwyllgor,

Diolch yn fawr am y cyfle i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor yn gynharach y mis hwn ac am eich diddordeb wedi hynny yn ein rhaglen sgiliau a hyfforddiant, yn enwedig ar gyfer unigolion sy'n dod i mewn i'r diwydiant.

Mae sgiliau a hyfforddiant yn faes sy'n cael blaenoriaeth gan BBC Cymru Wales, nid yn unig i newydd-ddyfodiaid ond hefyd o ran yr hyn y gall ei gynnig i'r gweithlu yn ei gyfanrwydd, yn ogystal ag i'r gymuned greadigol yn ehangach. Mae'r rhwymedigaeth hon yn cael ei hadlewyrchu hefyd yn Siarter a Chytundeb y BBC. Cynigir hyfforddiant drwy nifer o bartneriaid a darparwyr, gan gynnwys Academi'r BBC, sy'n darparu hyfforddiant i bobl sy'n gweithio yn y BBC, pobl sydd eisiau gweithio yn y diwydiant, ac i'r diwydiant darlledu yn ehangach.

O ystyried amrywiaeth ac amrediad y pecynnau hyfforddiant a ddarperir ledled y DU, ni fu'n bosibl cyfrifo asesiad cywir o'r arian a fuddsoddir yn yr unigolion hynny sy'n dod i mewn i'r diwydiant. Fodd bynnag, rwyf wedi amlinellu isod ein dull gweithredu ar gyfer gweithio gyda newydd-ddyfodiaid, yn ogystal ag ymateb i'r cwestiynau eraill a ofynnwyd gennych.

Bob blwyddyn, mae BBC Cymru yn cynnig nifer o gyfleoedd prentisiaeth newydd ar draws y busnes er mwyn cefnogi twf sgiliau yn y diwydiant ac yn ein gweithlu. Mae'r amrywiaeth o gynlluniau sydd ar gael wedi'u gwasgaru ar draws y busnes, o Newyddiaduraeth, Technoleg a Gweithrediadau, i Chwaraeon, Radio a Chynulleidfaoedd. Y nod yw meithrin gweithlu medrus ac amrywiol, ar yr un pryd â darparu profiad dysgu eithriadol i'r prentisiaid hynny.

Ar hyn o bryd, mae 26 o brentisiaid o fewn adran Gwasanaeth Cyhoeddus BBC Cymru yn gweithio mewn nifer o swyddogaethau. Maent yn cymryd rhan mewn hyfforddiant yn y gweithle, yn ogystal â chyfleoedd dysgu gyda'n partneriaid addysgol yng Nghymru fel Sgil Cymru a Choleg Caerdydd a'r Fro. Mae'r portffolio prentisiaethau wedi'i dargedu er mwyn sicrhau ein bod yn meithrin sylfaen sgiliau cynaliadwy yn ein gweithlu ac yn y sector cyfryngau yn ehangach yng Nghymru a'r DU.

Mae ein cynlluniau prentisiaeth Gyrfaoedd Cynnar yn amrywio o Lefel 3 i Lefel 7, ac ar hyn o bryd mae gennym brentisiaid ar y safonau Cymraeg a'r safonau Saesneg; mae'r prentisiaethau hyn yn para rhwng 18 mis a 4 blynedd fel arfer. Yng Nghymru, mae pum prentis arall yn cael eu cyflogi yn Adrannau'r BBC y tu allan i BBC Cymru ond wedi'u lleoli yn y Sgwâr Canolog yng Nghaerdydd (Cyllid a Newyddion) a chwech yng nghanolfan BBC Studios ym Mhorth y Rhath. Mae hyn yn golygu bod gan Grŵp y BBC 37 o brentisiaid i gyd ar hyn o bryd, ar draws ei holl weithgareddau yng Nghymru.

Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o'r cynlluniau prentisiaeth yn cynnig swyddi parhaus yn BBC Cymru ar ôl graddio; eleni, mae pedwar prentis wedi symud i swyddi ar draws Technoleg, Marchnata a Gweithrediadau. Mae'r rhan fwyaf o'r cynlluniau prentisiaeth a gynigir gan y BBC yn cynnwys cytundeb parhaol ar ôl graddio, ac mae'r lefelau cadw yn uchel: er enghraifft, o'r 10 Prentis Newyddiadurwr Digidol a ymunodd â'r BBC yn 2019,

mae wyth yn dal i gael eu cyflogi gan y BBC a dau wedi symud ymlaen i yrfaoedd eraill. Ar hyn o bryd, mae prentisiaethau Rheoli Cynyrchiadau yn cynnig cytundebau cyfnod penodol o 18-20 mis sy'n adlewyrchu natur gwaith cynhyrchu ar draws y diwydiant. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'n prentisiaid Rheoli Cynyrchiadau yn cael eu cefnogi i gael cyflogaeth bellach gyda'r BBC neu i symud i yrfaoedd llawrydd llwyddiannus yn y diwydiant yn ehangach.

Ym mis Medi 2023, byddwn yn cynnig 17 o brentisiaethau newydd ar draws y busnes ac rydym wedi ehangu i adrannau megis ein tîm Archif lle byddwn yn cael prentis am y tro cyntaf. Rydym yn gweithio'n galed gyda'n tîm gyrfaoedd cynnar ac adnoddau i sicrhau ein bod yn hyrwyddo'r cyfleoedd hyn i grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli yn ddigonol ledled Cymru.

Yn ogystal a'r cyfleon i brentisiaid rydym eleni hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda Anabledd Cymru i gynnig cyfleon hyfforddi am 8 wythnos i bobl gyda anableddau mewn tair o'n hadrannau Newyddion, Radio a Busnes a Gweithrediadau; hefyd, fe fyddwn ni yn rhan o'r cynllun 10000 Black Interns ac yn cynnig cyfleon hyfforddi yn Newyddion a Chwaraeon.

Mae BBC Cymru wrthi'n gweithio'n agos gyda phartneriaid yn y diwydiant ar ddatblygu sgiliau a chanfod meysydd lle mae diffyg sgiliau neu hyfforddiant. Mae'r partneriaethau hyn yn y diwydiant yn cynnwys Cynllun Carlam Ffeithiol Cymru, sydd newydd groesawu ei drydedd garfan. Nod y cwrs datblygu hwn, a drefnir ac a ariennir mewn partneriaeth â Channel 4, S4C, Cymru Greadigol a chwmnïau cynhyrchu annibynnol ledled Cymru, yw tyfu'r genhedlaeth nesaf o enillwyr busnes ym maes cynhyrchu ffeithiol.

Mae prosiect Beacons Ffilm Cymru yn gynllun ffilmiau byrion sy'n tynnu sylw at ddoniau Cymreig, gan gefnogi gwneuthurwyr ffilmiau newydd o Gymru i greu ffilm fer gyda chyllid, hyfforddiant a chyngor. Caiff ei gefnogi gan BBC Cymru a BFI Network gyda chyllid gan y Loteri Genedlaethol. Drwy bortread dogfennol o fywyd ardal neu gomedi arswyd dywyll, mae'r prosiectau a gomisiynwyd drwy Beacons yn adlewyrchu'r amrywiaeth gyfoethog o ddoniau a storïau sydd gan Gymru i'w cynnig. Mae BBC Cymru hefyd yn cynnal Cynllun Cyfarwyddwyr Newydd ers 2017. Ar ôl canfod bod angen rhoi cyfle i gyfarwyddwyr dawnus wneud eu rhaglen ddogfen hir gyntaf, lansiwyd y cynllun gennym i roi cyfle i bedwar ymgeisydd llwyddiannus gynhyrchu rhaglen ddogfen hanner awr yr un ar gyfer BBC Cymru. Bydd y gwneuthurwyr ffilmiau newydd yn cael mynediad hefyd at gyfres o sesiynau mentora arbenigol a dosbarthiadau meistr gyda ffigyrau blaenllaw yn y byd rhaglenni dogfen yng Nghymru a thu hwnt.

Mae'r Ysgol Ffilm a Theledu Genedlaethol (NFTS) wedi sefydlu canolfan genedlaethol newydd yng nghanolfan ddarlledu Sgwâr Canolog BBC Cymru, mewn partneriaeth â'r darlledwr a Chymru Greadigol. Yn dilyn agor canolfannau yn Glasgow a Leeds yn llwyddiannus, yn ogystal â'i brif safle yn Beaconsfield, mae NFTS Cymru wedi canolbwyntio y gweithgaredd ar gefnogi graddedigion diweddar iawn i ennill y sgiliau lefel uwch sydd eu hangen i ddilyn astudiaethau ôl-radd neu i drosglwyddo'n llwyddiannus i'r diwydiannau creadigol. Gyda chyllid gan asiantaeth Cymru Greadigol,

mae’r ganolfan hyfforddiant newydd yng Nghymru hefyd yn cefnogi talent sy’n newydd i’r sector, yn ogystal â chryfhau dulliau datblygu sgiliau. Mae BBC Cymru yn gweithio’n agos gyda’r NFTS i ganfod bylchau mewn sgiliau ac i fanteisio i’r eithaf ar gyfleoedd hyfforddi. Y llynedd, cynhaliwyd dros 50 o gyrsiau, a oedd yn cynnwys amrywiaeth o sgiliau technegol a golygyddol, gyda llawer o’r cyrsiau’n cael eu cynnal yng nghanolfan ddarlledu BBC Cymru yn y Sgwâr Canolog, Caerdydd. Fe wnaeth llawer o staff BBC Cymru Wales fynychu ac elwa ar y cyrsiau a oedd ar gael. Mae’r NFTS hefyd wedi cynnal cyrsiau wyneb yn wyneb yng Nghaerfyrddin, Aberystwyth, Ynys Môn a Chaernarfon.

Ym mis Medi 2021, llofnododd y BBC Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Chymru Greadigol. Roedd perthynas waith dda rhwng y ddau bartner cyn ei lofnodi’n ffurfiol, ac mae honno’n parhau i ffynnu a thyfu. Mae Cymru Greadigol yn darparu gwerth i'r BBC mewn sawl ffordd, gan gynnwys cyd-gyllido cynnwys, meithrin gallu yn y sector, buddsoddi mewn sgiliau a hyfforddiant, yn ogystal â defnyddio ei rôl genedlaethol o ddod a’r sector ynghyd i drafod er budd y cyhoedd.

Mae partneriaethau pwysig eraill yn cynnwys y rhai gyda Culture Connect Cymru, Screen Alliance Wales, Media Cymru, Gyrfa Cymru ac It’s My Shout. Ein nod yw sicrhau ein bod yn gweithio’n rhagweithiol i sicrhau llif mwy amrywiol ar gyfer BBC Cymru a’r diwydiant yn ehangach.

Diolch yn fawr eto am ddangos diddordeb yn y maes gwaith hwn

Yn gywir,

Sian Gwynedd
Pennaeth Pobl, Diwylliant a Phartneriaethau